Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Meithrin Tredelerch**

**Scouts Hall**
**Cemaes Crescent**
**Tredelerch**
**Caerdydd**
**CF3 1TA**

**This report is also available in English**

**Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddia rfynol heb ei ddi



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

21/9/2022

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â Meithrin Tredelerch

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Meithrin Tredelerch Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae hwn yn wasanaeth sy'n gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol'. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Digonol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

Am fwy o wybodaeth am sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu yn y lleoliad. Mae ganddynt gydberthnasau agos â'i gilydd ac â’r staff, sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Gall y plant wneud dewisiadau ynglŷn â sut i dreulio eu hamser yn yr amgylchedd. Mae eu sgiliau annibyniaeth yn datblygu trwy gymryd rhan yn y gweithgareddau a gynigir.

Mae'r staff yn broffesiynol, yn meddu ar gymwysterau priodol ac yn mwynhau eu gwaith. Maent yn garedig, yn ofalgar ac yn rhyngweithio'n dda â'r plant. Yn gyffredinol, mae’r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn gweithredu trefn arferol, polisïau a gweithdrefnau addas. Fodd bynnag, ni chaiff gweithdrefnau newid cewynnau a'r polisi rheoli ymddygiad eu dilyn yn gyson bob amser. Ni chynhelir ymarferion tân yn ddigon rheolaidd er mwyn i'r holl blant fod yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau. Mae pynciau diddorol sy'n briodol i'w hoedran yn cael eu cynllunio ac mae'r rhain yn ennyn diddordeb y plant.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n ddigonol yn gyffredinol. Fodd bynnag, nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad bob amser yn nodi risgiau a pheryglon i sicrhau y gall y plant chwarae’n ddiogel a sicrhau cydymffurfedd â rheoliadau. Rydym wedi dyroddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ac mae'n rhaid i'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad gymryd camau brys i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae ystod o adnoddau dan do ac yn yr awyr agored sy'n briodol i oedran y plant ac yn hyrwyddo eu datblygiad.

Mae llawer o feysydd arweinyddiaeth a rheolaeth yn effeithiol, ond mae angen rhoi sylw i rai materion rheoleiddio. Mae polisïau a gweithdrefnau addas ar waith ond mae angen adolygu llawer ohonynt, ac mae’r gwaith o gadw cofnodion yn anghyson. Mae’r staff yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt, ac, o ganlyniad, maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Mae'r partneriaethau â'r rhieni yn gadarnhaol, ac maent yn canmol y person sy'n rhedeg y lleoliad, y staff, a'r gofal y mae eu plant yn ei dderbyn.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Llesiant** **Digonol**

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn cael eu gwerthfawrogi yn y gwasanaeth. Maent yn siarad â'r staff gofal yn ddigymell i geisio sicrwydd neu gymorth. Pan fyddant yn cwympo, maent yn mynd at y staff am gysur a hefyd yn gofyn pan mae angen iddynt fynd i'r toiled. Maent yn sgwrsio ac yn rhannu gwybodaeth â'r staff y maent yn eu hystyried yn oedolion y gellir ymddiried ynddynt. Er enghraifft, bu un plentyn yn sgwrsio am ei diwrnod yn yr ysgol. Yn dilyn anogaeth gan oedolion, gallant ddefnyddio rhywfaint o Gymraeg achlysurol megis 'ydw' ac ailadrodd ymadroddion wedi'u modelu gan oedolyn.

Mae llawer o'r plant yn gwahanu’n hawdd oddi wrth eu rhieni, yn ymgartrefu’n dda yn eu grwpiau ac mae ganddynt gydberthnasau agos â staff a phlant cyfarwydd. Mae ganddynt gysylltiadau emosiynol cadarnhaol gyda'r staff, sy'n eu helpu i ymgartrefu'n gyflym. Mae'r plant sy'n ei chael hi'n anoddach gwahanu oddi wrth eu rhieni yn ceisio cysur a maldod gan y staff. Daeth y plant atom yn hyderus ac roeddent yn falch o ddangos eu lluniau a'u trafod.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Yn ystod amser bwyd, maent yn golchi dwylo ac yn eistedd yn daclus wrth y bwrdd wrth fwyta. Gallant aros eu tro pan fydd staff yn gweini ffrwythau a dŵr iddynt, gan ddiolch i'r staff. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant yn briodol ar y cyfan. Er enghraifft, chwaraeodd dau blentyn yn llwyddiannus yn y blwch dŵr, gan rannu adnoddau, a chymryd eu tro i lithro'r anifeiliaid i'r dŵr. Fodd bynnag, mae lleiafrif o'r plant yn dysgu rheoli eu hymddygiad eu hunain, fel tynnu ei gilydd gerfydd eu dillad ychydig yn gas wrth chwarae.

Mae'r plant yn chwarae yn hyderus, gan ddewis gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt yn gyffredinol. Er enghraifft, gwelsom ddau blentyn yn chwarae rôl am gyfnod hir. Roeddent yn defnyddio'r pot te a dail go iawn i wneud te, yn cymryd eu tro i weini ac eistedd wrth y bwrdd tra'n esgus yfed y te a sgwrsio. Mae'r plant yn symud yn annibynnol rhwng y gweithgareddau a ddarperir dan do ac yn defnyddio'r ardal awyr agored ar amseroedd penodol dan oruchwyliaeth. Fodd bynnag, nid yw'r plant yn mynd i'r toiledau yn annibynnol. Weithiau, mae’r plant yn cychwyn eu chwarae eu hunain. Er enghraifft, symudodd plentyn i'r man chwarae rôl adeiladu a dyfalbarhau gyda'r peiriant cloddio er mwyn symud y tywod yn ofalus.

Adroddiad terfynol heb ei gynoeddi

## Gofal a Datblygiad — Digonol

Mae gan y staff ychydig o ddealltwriaeth o'u rolau a'u cyfrifoldebau i gadw’r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn gwirio tymheredd yr oergell bob dydd ac yn defnyddio rhestr wirio ar gyfer y mannau a defnyddir yn ystod byrbrydau a phrydau bwyd. Maent yn golchi eu dwylo'n rheolaidd, yn defnyddio hancesi papur tafladwy ac yn glanhau'r arwynebau cyn amser bwyd. Fodd bynnag, ni ddilynir gweithdrefnau newid cewynnau yn unol â pholisi'r lleoliad. Mae'r staff yn ymwybodol o'r polisi diogelu a'u dyletswydd i adrodd i'r person â gofal. Fodd bynnag, nid oeddent yn gallu ateb yn hyderus pan ofynnwyd iddynt am eu cyfrifoldeb unigol i adrodd. Mae ymarferion tân yn cael eu hamseru, eu gwerthuso, a'u cwblhau bob tri i bedwar mis. Fodd bynnag, nid ydynt yn ddigon rheolaidd i gynnwys yr holl blant sy'n mynychu'r lleoliad yn ystod yr holl sesiynau a gynigir.

Mae llawer o'r staff yn trin y plant ag urddas a pharch. Maent yn sensitif i anghenion y plant, gan ddarparu gofal ac anwyldeb. Maent yn rhoi maldod pan fo angen i roi cysur a sicrwydd. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn deall nod y polisi rheoli ymddygiad i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif bob amser yn gyson wrth fodelu ac annog y strategaethau iaith ac ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisi’r lleoliad. Er enghraifft, maent yn defnyddio ymadroddion fel “Dwi ddim yn meddwl bod hynny'n ddoniol” neu “Dwi ddim yn meddwl llawer am hynny”, pan mae'r plant yn rhedeg o amgylch y neuadd. Mae llawer o'r staff yn fedrus wrth reoli'r plant mewn gweithgaredd grŵp mawr. Yn ystod sesiwn ganu, maent yn defnyddio lawer o ystumiau a symudiadau. O ganlyniad, mae'r plant yn ymgysylltu ac yn cael llawer o hwyl.

Mae llawer o'r staff yn hyrwyddo dysgu'r plant trwy ofyn cwestiynau priodol yn Gymraeg. Er enghraifft, wrth i'r plant dynnu lluniau, mae'r staff yn gofyn cwestiynau priodol fel “*Pa liw yw hwn*?". Yn ystod amser stori, maent yn manteisio ar gyfleoedd i atgyfnerthu sgiliau cyfrif ac yn defnyddio arwyddion i atgyfnerthu geirfa Gymraeg newydd. Cynllunnir testunau diddorol a gwaith thematig sy'n briodol i'w hoedran, ac maent yn defnyddio map meddwl i gofnodi mewnbwn y plant. Gwneir hyn gan ddefnyddio dogfen cynllunio trosolwg eang sy'n caniatáu ar gyfer rhywfaint o ddatblygu sgiliau. Er enghraifft, mae'r plant wedi bod yn tyfu eu planhigion eu hunain yn ddiweddar y byddant yn eu bwyta cyn bo hir. Mae'r ffeiliau datblygu yn cynnwys lluniau o weithgareddau'r plant sy'n cynnwys nodiadau ynghylch cyflawniadau'r plant mewn perthynas â sgiliau'r meysydd dysgu. Mae gan y staff gynlluniau i ddatblygu system i nodi camau nesaf y plant ac i ymgorffori hyn yn y gwaith cynllunio. Mae'r staff wedi ymrwymo i ddefnyddio cymaint o Gymraeg â phosibl, a defnyddir y cyfieithiad Saesneg pan fo angen. Cyflwynir geirfa Gymraeg yn ystod y gweithgareddau ffocws megis y gofrestr ddyddiol ac amser canu.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Yr Amgylchedd | Digonol |
|---|---|

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y safle'n ddiogel ac na all unrhyw ymwelwyr anawdurdodedig fynd i mewn i'r adeilad. Mae cofnod o ymwelwyr a ganiateir yn cael ei gadw yn ôl yr angen. Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw o amser cyrraedd a gadael y plant yn y lleoliad. Mae'r staff hefyd yn llofnodi wrth fynd i mewn i'r adeilad a'i adael. Mae asesiadau risg a gwiriadau diogelwch dyddiol sylfaenol ar waith ar gyfer yr adeilad. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn nodi nifer o beryglon ar draws y lleoliad. Er enghraifft, mae ymylon miniog i ochr blychau storio yn yr adeilad, rhaff yn hongian o'r polyn fflag y tu allan a chynhwysydd storio newydd mawr a sied yn yr ardal awyr agored. Mae deunyddiau glanhau yn cael eu cadw yn y cyntedd a'r toiled ac mae'r plant yn gallu eu cyrraedd. Mae llawer o'r argymhellion eraill a wnaed yn ystod yr arolygiad cofrestru mewn perthynas â'r amgylchedd heb eu gweithredu. Er nad yw'n rhestr holl gynhwysfawr, mae'r rhain yn cynnwys cyfyngu mynediad y plant i ochr yr adeilad, gorchuddio'r holl bibellau a rheiddiaduron sydd heb eu gorchuddio, giardiau bysedd i'r drysau a diogelu wyneb garw'r adeilad. Mae'r materion hyn yn golygu bod yna adegau pan nad yw'r plant yn cael eu hamddiffyn rhag risgiau posibl i'w hiechyd a diogelwch yn yr amgylchedd. Rydym felly wedi dyroddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol gymryd camau brys i fynd i'r afael â'r mater hwn. Ers hynny, mae'r unigolyn cyfrifol wedi ein hysbysu, drwy ddarparu ffotograffau, bod llawer o eitemau anaddas wedi'u tynnu a'u bod yn parhau i wneud gwelliannau.

Darperir gofal mewn Neuadd Sgowtiaid a'r sefydliad yn unig sy'n defnyddio'r adeilad yn ystod y dydd. Mae digon o le a chyfleusterau ac mae'r gwaith cynnal a chadw ar yr adeilad yn ddigonol ar y cyfan. Mae'r neuadd yn fawr gyda digon o le ac mae gwahanol weithgareddau yn cael eu trefnu'n ddyddiol ar gyfer dysgu a datblygiad y plant. Mae gan y plant le i gadw eu heiddo ar begiau cotiau. Mae'r cyfleusterau toiledau yn hygyrch ac yn lân ac yn addas ar gyfer eu preifatrwydd a'u hurddas. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleusterau newid cewynnau yn addas o ran urddas y plant. Defnyddir bagiau bin yn y prif ystafelloedd ac nid ydynt yn cydymffurfio ag egwyddorion rheoli heintiau gan fod yn rhaid i'r staff eu hagor â'u dwylo. Mae man awyr agored o flaen yr adeilad y mae'r plant yn ei ddefnyddio ar adegau penodol dan oruchwyliaeth. Mae ganddo amrywiaeth o adnoddau megis beiciau cydbwysedd a chegin fwd. Cedwir y rhain dros nos mewn sied bwrpasol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu ystod addas o adnoddau, teganau ac offer o ansawdd da. Maent yn sicrhau bod y rhain wedi'u trefnu'n addas i annog gwybodaeth a datblygiad y plant. Mae'r gweithgareddau'n cael eu trefnu'n bwrpasol ac yn hybu annibyniaeth y plant. Er enghraifft, mae ardaloedd ar gyfer chwarae rôl, chwarae byd bach, darllen, datblygu sgiliau echddygol manwl a bras. Mae'r plant yn symud yn rhydd rhwng yr ardaloedd hyn. Lle bo modd, mae deunyddiau go iawn ac offer wedi'u hailgylchu yn cael eu defnyddio. Er enghraifft, mae'r plant yn gwneud bwyd gan ddefnyddio moron a letys a the mewn tebot go iawn gan arllwys llaeth o garton gwag. Defnyddir dodrefn sy'n briodol i

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

oedran y plant ar gyfer crefftau ac ysgrifennu yn ogystal â bwrdd penodol ar gyfer bwyta. Mae'r adnoddau'n hybu datblygiad personol a chymdeithasol y plant trwy eu hystod o lyfrau, doliau a chymeriadau amlddiwylliannol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn mynegi ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth sy'n bodloni anghenion y plant, ond mae angen gwelliannau. Diweddarwyd y datganiad o ddiben yn ystod y broses arolygu er mwyn adlewyrchu'r gwasanaeth yn gywir. Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw hwn; fodd bynnag, nid yw'r datganiad o ddiben ar gael yn Gymraeg. Mae gan y darparwr bolisïau a gweithdrefnau digonol ar waith ac mae'n rhannu'r rhain gyda'r staff. Fodd bynnag, nid yw llawer o'r rhain yn adlewyrchu newidiadau diweddar yn y lleoliad. Mae'r lleoliad wedi dod yn aelod o sefydliad ymbarél yn ddiweddar ac mae'n bwriadu gweithio gyda nhw i ddatblygu ei hunanwerthuso a'i welliant. Gan fod y lleoliad wedi bod yn gweithredu ers llai na blwyddyn, nid yw adolygiad o'r gwasanaeth wedi'i gwblhau eto.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr yswiriant a'r gwiriadau diogelwch perthnasol ar waith trwy gysylltu â'r pwyllgor sy'n rhedeg y neuadd. Maent yn sicrhau bod cofnodion ar gyfer y plant a'r staff yn cael eu cadw, ac mae'r rhan fwyaf yn gyflawn. Fodd bynnag, mae llofnodion ar goll ar rai o'r contractau a chofnodion damweiniau, ac mae angen cadw cofnodion sy'n ymwneud â lleoliad arall ar wahân yn gyfan gwbl. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn proses recriwtio ddiogel ac yn sicrhau bod gan y staff y cymwysterau gorfodol gofynnol. Mae system sefydlu ddigonol ar waith i gyflwyno'r staff i'r lleoliad newydd hwn. Mae'r staff yn cael cyfleoedd i gynnig eu barn mewn sesiynau goruchwylio un-i-un, neu ar unrhyw adeg y maent yn teimlo bod angen hynny. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn creu ethos cadarnhaol lle mae'r plant a'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Dywedodd y staff wrthym fod y bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwrando ar eu barn, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu parchu. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn angerddol am eu gwaith ac yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a ddaw yn sgil gweithio yn y lleoliad.

Mae'r lleoliad wedi datblygu partneriaethau da gyda rhieni dros gyfnod cymharol fyr. Rhennir yr wybodaeth berthnasol am bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad. Mae'r rhieni'n llawn canmoliaeth am y lleoliad ac yn canmol y staff a'r gofal y mae eu plant yn ei dderbyn. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu hysbysu'n dda a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo bod y lleoliad yn cefnogi anghenion unigol eu plant.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Sicrhau bod yr holl staff yn dilyn y polisi rheoli ymddygiad yn gyson.
A2. Adolygu'r gweithdrefnau newid cewynnau a sicrhau eu bod yn cael eu dilyn yn gyson.
A3. Sicrhau bod pob aelod o staff yn cael hyfforddiant diogelu addas a'u bod yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau unigol.
A4. Sicrhau bod y plant yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau gadael mewn argyfwng tân drwy gynnwys pob plentyn yn yr ymarferion.
A5. Adolygu'r holl bolisïau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu gweithdrefnau cyfredol y lleoliad yn gywir.
A6. Darparu datganiad o ddiben Cymraeg.
A7. Sicrhau bod yr holl gofnodion wedi'u llofnodi a'u trefnu'n briodol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Crynodeb o'r Diffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 25 | Mae'r unigolyn cyfrifol wedi methu cynnal asesiadau risg cadarn ar gyfer pob rhan o'r lleoliad ac mae gwiriadau dyddiol yn aneffeithiol o ran nodi risgiau i blant. Mae wedi methu sicrhau bod risgiau amgylcheddol, peryglon a mesurau diogelwch yn cael eu nodi a'u dileu cyn belled ag y bo modd. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod yr amgylchedd yn rhydd rhag peryglon y gellir eu hosgoi a sicrhau bod yr holl fesurau diogelwch ar waith. Rhaid iddo sicrhau bod asesiadau risg a gwiriadau diogelwch dyddiol yn effeithiol wrth nodi'r risgiau i'r plant. | Newydd |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi